OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3111 (Cy. 311)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Tachwedd 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 9 ac 16 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 21(4) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

### Diwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf

**2.**—(1) Mae Tabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg 1973 | Ymgymeriadau gwresogi | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(3) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mewnosoder—

(**1**) 2012 dccc 2.

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(4) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Tai 1985, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Yr afon uwchlaw | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli ffyrdd i gerddwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref siro |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(5) Yn y rhes sy'n dechrau "Adran 2 o'r Ddeddf hon", ar ôl "Rheolaeth dda a llywodraeth" mewnosoder "a rhwystro ac atal niwsansau".

**Diwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf**

**3.**—(1) Mae Tabl 2 yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(3) Ar ôl y rhes sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wnaed o dan adran 23 o Ddeddf Tai 1985, mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Yr afon uwchlaw | Cyngor sir (Abertawe) |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli ffyrdd i gerddwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Adeileddau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol" |

(4) Yn y rhes sy'n dechrau "Adran 2 o'r Ddeddf hon", ar ôl "Rheolaeth dda a llywodraeth" mewnosoder "a rhwystro ac atal niwsansau".

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

18 Tachwedd 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ("y Ddeddf"), a gwnaed y Gorchymyn hwn o dan adrannau 9 ac 16 o'r Ddeddf.

Mae adran 9 o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff wneud is-ddeddfau heb iddynt gael eu cadarnhau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o is-ddeddfau y caiff y mathau perthnasol o awdurdodau eu gwneud heb eu cadarnhau. Mae erthygl 2 yn diwygio Tabl 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Mae adran 16 o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas â hwy) drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff gynnig hysbysiadau cosbau penodedig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau y caiff is-ddeddfau oddi tanynt ddarparu ar gyfer hysbysiadau cosbau penodedig. Mae erthygl 3 yn diwygio Tabl 2 yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.